



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Agored
Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru
19 Gorffennaf 2023, 10:00
Lleoliad: Trwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Yn Bresennol:		
Rachel Attwood	(RA)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu
Michelle Battlemuch	(MB)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol (Yn cynrychioli AJ)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd ochr staff
Bethan Hopkins	BH	Archwilio Cymru (Arsylwr)
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Samantha Morgan	(SM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaeth
Joe O'Brien	(JOB)	Arweinydd Systemau a Dadansoddeg y Gweithlu
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Sarah Brewer	(SB)	Pennaeth Profiad Gweithwyr
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion heb eu cadarnhau o Bwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (Agored) 19 Gorffennaf 2023
------------------------	---

Rupinder Dogra	(RD)	Pennaeth Partneru Pobl a Datblygu Sefydliadol
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio

Ysgrifenyddiaeth

Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		

PODC 1/ 2023.07.19

Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi'r ymddiheuriadau a dderbyniwyd.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 8 Tachwedd 2023.

Croesawodd MM BH fel sylwedydd o Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

PODC 2/ 2023.07.19

Datganiadau o Fuddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

PODC 3/ 2023.07.19

Eitemau ar gyfer Sicrwydd

PODC 3.1/ 2023.07.19

Gwraidd y Mater: Diwylliant

Cyflwynodd NL yr eitem, ac amlinellodd mai diben yr eitem yw ystyried diwylliant, profiad ac effeithiolrwydd gweithredol o fewn y Sefydliad.

Rhoddodd RA gyflwyniad a oedd yn amlygu ymrwymiad y Sefydliad i ddatblygu diwylliant cadarnhaol ar bob lefel o fewn y Sefydliad. Canfuwyd diwylliant ym mhob un o'r tair blaenoriaeth strategol a nodwyd gan y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (Diwylliant a Phrofiad; Effeithiolrwydd Sefydliadol; ac Adnoddau a Chynllunio). Disgrifiwyd diwylliant fel patrwm ymddygiad yn y Sefydliad a oedd yn cael ei annog, nad oedd yn cael ei gefnogi na'i oddef yng ngwerthoedd ac ymddygiadau, symbolau a'i systemau a phrosesau'r Sefydliad.

Datblygwyd y Strategaeth Pobl yn 2020 ac yna Asesiad Diwylliant yn 2022, a adlewyrchwyd yn ymrwymadau'r CTCI. Cafwyd asesiad gwaelodlin o ddiwylliant y Sefydliad ym mis Chwefror 2023 a dadansoddwyd y canlyniadau (400 tudalen o ddata) a'u cyflwyno i'r Bwrdd, y Tîm Arwain, yr Undebau Llafur a'r Rhwydweithiau Staff.

Nodwyd negeseuon allweddol ac roedd ymgysylltiad â'r Cyfarwyddiaethau wedi dechrau, a oedd wedi nodi meysydd lle'r oedd angen newid ar lefel Sefydliadol;

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2023	Fersiwn: Drafft	Tudalen: 2
------------------------------------	------------------------	-------------------

ar lefel Cyfarwyddiaeth; ac ar lefel unigol. Roedd cynnwys y fewnrwyd wedi'i ddatblygu a oedd yn cynnwys dolenni i'r Strategaeth Hirdymor.

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer aelodau o staff i'w hyfforddi fel carfan o eiriolwyr diwylliannol achrededig a fyddai'n bywiogi, gwreiddio ac ysgogi datblygiad diwylliant o fewn Addewid y Bobl.

Roedd gwaith wedi'i gynllunio hyd at 2026 pan fyddai ailasesiad yn cael ei gynnal. Yn ystod 2023 byddai gweithdai ac arolygon staff yn cael eu cynnal a chynlluniwyd 'Holi Tracey, Arbenigwr Diwylliant' ym mis Medi 2023. Yn 2024, byddai Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid hyrwyddo datblygiad Diwylliannol y Sefydliad yn allanol yn ogystal ag yn fewnol. Awgrymwyd y byddai'r broses yn dechrau gydag archwiliad o werthoedd ac ymddygiad y Bwrdd, a fyddai'n cyfrannu at adolygiad o'r broses ar draws y Sefydliad. Byddai diwylliant yn arwain at ddull cwbl integredig, wedi'i ymgorffori ar draws popeth a wnâi'r Sefydliad, a dyma oedd ffocws Cyfarfod Datblygu Bwrdd diweddar.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y gwerthoedd Diwylliannol sydd wedi'u gwreiddio yn y Sefydliad wedi'u cynnwys yn y rhaglen Ymsefydlu a fyddai, o fis Medi 2023, yn cael ei chynnal fel digwyddiadau personol am y tro cyntaf ers cyn y pandemig COVID.

Byddai'r Gweithdai a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad yn cynhyrchu canlyniadau effaith meintiol ac ansoddol, a fyddai'n llywio'r dull a fabwysiadwyd gan y Sefydliad. Cynhyrchodd y gwaith a wnaed eisoes set dda o ddangosyddion meintiol ar gyfer y Sefydliad. Awgrymwyd y dylid datblygu'r meysydd a oedd yn cynhyrchu dangosyddion ansoddol a'u cysylltu â'r gwaith cynhwysiant ehangach a gynlluniwyd gan y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Cynigiodd y Gyfarwyddiaeth ddatblygu dangosfyrddau pellach a fyddai'n rhoi sicrwydd pellach yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid datblygu ystorfa ar gyfer dysgu, a ddylai gynnwys y gwaith a ddatblygwyd eisoes gan y Sefydliad. Byddai'r canlyniadau a arsylwyd hefyd yn hwyluso 'model dysgu o ragoriaeth' i adeiladu arno ar gyfer y dyfodol.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai hyrwyddo Diwylliant yn cael ei ddatblygu ym mhob Is-adran a Chyfarwyddiaeth. Roedd cysyniad fforwm wedi'i gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Tîm Gweithredol Busnes yn y dyfodol. Byddai pob fforwm yn cynnwys arweinwyr a rheolwyr sy'n adrodd i gyfarwyddwr, lle byddai materion yn cael eu codi.

Diolchodd MM i RA ac NL am y cyflwyniad.

PODC 3.2/ 2023.07.19	Diweddariad ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Cyflwynodd NL yr eitem ac amlinellodd bwrpas yr adroddiad a'r cysylltiadau cryf â'r eitem flaenorol, 3.1. Nodwyd gwelliannau yn y cyfraddau datganiadau, ond roedd angen gwelliant pellach o hyd, ac ar draws y sefydliad. Rhoddodd RA gyflwyniad yn tynnu sylw at y cynnydd diweddaraf ar yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022/23. Ffurfiwyd dau rwydwaith staff newydd, sef Chaps Chat, ein Rhwydwaith Dynion ac Ymlaen, ein rhwydwaith siaradwyr Cymraeg. Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng o 16.1% i 11.8%. Roedd angen gwneud rhagor o waith i wella cyfraddau datgan, ac i ddeall cynrychiolaeth y gweithlu yn well. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn y gweithlu anabl fodd bynnag. Roedd y ffigwr yn parhau i fod yn anghymesur is na chanran y bobl anabl o fewn poblogaeth Cymru gyfan. Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi o weld y cynnydd cadarnhaol a ddangoswyd ar y graff datgelu a theimlwyd bod hwn yn ddangosydd o'r ymddiriedaeth a oedd gan staff yn y Sefydliad. Gofynnodd y Pwyllgor am bryderon ynghylch cydraddoldeb gyda gwahanol gymunedau ledled Cymru, a chanfuwyd bod rhwystrau diwylliannol neu ethnig yn bodoli a oedd yn rhwystro darparu gwasanaethau i'r cymunedau hynny. Teimlwyd ei bod yn hanfodol i'r Sefydliad ddysgu, deall a darparu gwasanaethau effeithiol i holl boblogaeth Cymru. Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith tuag at annog pobl iau i ymuno â'r Sefydliad, a datblygu hyfforddiant a mentora o fewn y Sefydliad; cytunodd y Pwyllgor y dylai Dilyniant Gyrfa fod yn faes ffocws i'w ddatblygu ymhellach. Gofynnwyd i'r Pwyllgor sut y gellid rhoi gwybod i'r Pwyllgor am niferoedd isel y cyfraddau Cwyno a gofnodwyd, heb i achosion unigol gael eu nodi. Sicrhaodd NL y Pwyllgor fod trafodaethau ar lefel Weithredol yn sicrhau y byddai unrhyw dueddiadau'n cael eu nodi ac y byddai camau adferol yn cael eu cymryd. Byddai hyn hefyd yn cael ei adrodd i Gadeirydd y Bwrdd yn rheolaidd. Cytunodd NL i roi gwybod i'r Pwyllgor am y ffigurau cwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd. Cam Gweithredu: NL Awgrymodd y Pwyllgor y dylid meddwl ymhellach sut y gallai'r Sefydliad fynd i'r afael â'r materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol ar	

gyfer y staff rheng flaen hynny / darparu gwasanaethau. Cytunodd NL, ac eglurodd fod hyn yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol ar lefel strategol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd dysgu o ddigwyddiadau allweddol a fyddai'n caniatáu i welliannau gael eu gwneud, megis Wythnos Anabledd Dysgu ac Wythnos Gofalwyr. Gallai'r Sefydliad adeiladu ar wybodaeth a gafwyd yn ystod y digwyddiadau hyn i ddangos ei fod yn Sefydliad a oedd yn ceisio cefnogi a datblygu ei staff.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y gwaith gyda Phrifysgol Arden wedi'i ohirio, ac y byddai'r canlyniadau a chyflwyniad yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Ionawr 2024 y Pwyllgor.

Cam Gweithredu: NL

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith wedi'i wneud i ddatblygu'r agenda Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**PODC 3.3
2023.07.19**

**Fforymau Gweithio Partneriaeth Undebau Llafur -
Diweddariad**

Cyflwynodd SM adroddiad blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol. Bu'r ffocws ar faterion strategol, a ffurfiwyd fforwm ychwanegol i edrych yn benodol ar faterion gweithredol. Roedd cysylltiadau wedi'u gwneud â gwaith y Sefydliad ym maes diwylliant, cynnig gwerth cyflogeion ac roedd y fforwm wedi bod yn hollbwysig wrth yrru'r gwaith hwnnw yn ei flaen.

Datblygwyd cynllun gwaith i sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn y dyfodol yn cyd-fynd ar draws y Sefydliad. Roedd gwaith tuag at gryfhau ymagwedd y Sefydliad at newid Sefydliadol wedi'i ddatblygu o fewn y Fforwm ac roedd pecynnau cymorth wedi'u datblygu a oedd yn galluogi staff ar bob lefel i werthuso'r newidiadau hyn.

Roedd y newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ac a gadarnhawyd gan y Bwrdd yn cynnwys alinio Cylchoedd Gorchwyl; byddai rhagor o waith yn cael ei wneud gan gynrychiolwyr Ochr y Staff i ganiatáu aliniad llawn â'r trefniadau gweithio newydd ym mis Medi 2023.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei gynrychioli ar bob un o'r fforymau ac yn cefnogi cynrychiolwyr Ochr Staff yn llawn i gyflawni'r amcan hwn ac roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod eglurhad ynghylch presenoldeb disgwyliedig wedi'i ddarparu a gwelwyd y gwelliant mewn cynrychiolaeth ym mhob cyfarfod diweddar.

**PODC 3.4/
2023.07.19**

Cwynion ynghylch y Gymraeg

Cyflwynodd RA bapur a oedd yn manylu ar ddwy gŵyn a wnaed yn Ebrill a Mai 2023.

Parhaodd y Sefydliad i wreiddio'r gofyniad am ddarpariaeth y Gymraeg yn ei waith ar draws y Sefydliad a darparwyd y manylion hyn yn Adroddiad Blyneddol y Gymraeg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y trefniadau ar gyfer sefydliadau lletya. Cadarnhaodd RA fod un gŵyn wedi'i chodi o ganlyniad i gamau gweithredu gan weithiwr mewn sefydliad a letyir. Fodd bynnag, codwyd y gŵyn yn erbyn Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y corff lletyol. Awgrymwyd y dylai fframwaith fod ar waith gyda'r holl gyrff a letyir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Awgrymodd y Pwyllgor fod Safonau'r Gymraeg yn gysylltiedig â pholisïau i bwysleisio pwysigrwydd y Safonau ac i gynnwys diwrnod hyfforddiant Iaith Gymraeg a oedd yn manylu ar y Safon. Byddai hyn yn dangos ymhellach ymrwymiad y Sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Maes gwaith pwysig i ganolbwyntio arno oedd asesu pryd roedd swydd yn y Sefydliad yn gofyn i weithiwr siarad Cymraeg yn rhugl.

Cydnabu'r Pwyllgor rai materion staffio yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Nododd y Pwyllgor fod yna gamau i fynd i'r afael â phroblemau gyda gwefannau Cymraeg y Sefydliad. Eglurodd NL y byddai llythyr yn manylu ar waith a wnaed eisoes a'r gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y Sefydliad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg cyn y dyddiad cau, sef 9 Medi.

Nododd y Pwyllgor fod angen gwneud rhagor o waith i archwilio sut yr oedd cyrff a letyir yn rhoi sicrwydd ynghylch eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Dywedodd PV y byddai'r adroddiad sicrwydd diwedd blwyddyn gan y Cyrff a Letyir (a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol) yn crynhoi cydymffurfiaeth berthnasol.

Byddai'r Sefydliad yn disgwyl i Ddatganiad Atebolrwydd gael ei ddarparu gan y Corff a Lletyir ynghylch ei ddarpariaeth gwasanaeth.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran y cwynion am y Gymraeg a dderbyniwyd yn ddiweddar, er gwybodaeth.

PODC 3.5/ 2023.07.19	Egwyl
PODC 3.6/ 2023.07.19	Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad

Rhoddodd JOB gyflwyniad yn manylu ar wybodaeth lefel uchel yn deillio o Newid Sefydliadol o fewn y Sefydliad ac adolygu'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

I grynhoi, amlygodd JOB y canlynol:

- Roedd y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad yn dangos cyfraddau salwch cyfartalog o fewn y cyfnod amser a gweithlu sefydlog a bod ffigurau trosiant staff o fewn canllawiau cenedlaethol.
- Dangoswyd 'Dangosfwrdd Dangosyddion Ychwanegol' a oedd yn dangos data newydd ynghylch Amser i Benodi; Hyfforddiant a Gwerthusiadau Statudol a Gorfodol.
- Manylodd JOB ar ddatblygiad y Dangosfwrdd yn y dyfodol ac ychwanegiadau ato a gofynnodd i awgrymiadau a gwelliannau i'r Dangosfyrddau gael eu hanfon drwy e-bost.
- Mae dangosfyrddau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cwmpasu meysydd Dadansoddi Ymholiad Cymorth Pobl a Datblygiad Sefydliadol; Rhaglenni Newid; Dechreuwyr ac Ymadawyr; Data Cyfle Cyfartal TRAC; Cynllunio Gweithlu; Cynllun Gwaith CTCI a DPA.
- Roedd yr adolygiad Diwedd Blwyddyn yn dangos Gweithlu sefydlog, roedd y gostyngiad ym mis Medi o ganlyniad i drosglwyddo staff i Dimau Iechyd Cyhoeddus Lleol.
- Roedd salwch staff wedi gostwng i lai na 3% ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gyfateb y gyfradd ddisgynnol hon â chyflwyniad Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau.
- Roedd amrywiadau yn y tueddiadau cydymffurfio â'r Dangosfwrdd Hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn ymwneud â chynnwys cyrsiau ychwanegol ym mis Hydref 2022. Roedd y cyfraddau cydymffurfio Statudol a Gorfodol wedi rhagori ar y targed cenedlaethol o gydymffurfiaeth o 85% ar gyfer cyrsiau craidd ac estynedig.
- Roedd cofnodi cydymffurfiaeth arfarniadau o fewn y Cofnod Staff Electronig yn heriol, ac roedd gwaith ar y gweill gyda Rhwydwaith ESR Cymru Gyfan i ymchwilio i welliannau mewn gweithgaredd cofnodi yn y maes hwn. Fodd bynnag, sylwyd bod gostyngiad mewn cydymffurfiaeth wedi'i gofnodi ar yr adeg y gweithredwyd datblygiad cyflog ym mis Hydref 2022.
- Roedd cofnodi mwy o ddata nodweddion gwarchodedig o fewn y Cofnod Staff Electronig yn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r gweithlu. Byddai cynnydd pellach mewn cofnodi data yn galluogi rheolwyr i gefnogi'r gweithlu cyfan ymhellach.

Aeth JOB i'r afael â cham gweithredu o gyfarfod blaenorol ynghylch y dadansoddiad o ddata ymadawyr. Roedd data'r blynyddoedd blaenorol yn dangos bod nifer ychydig yn uwch o wrywod yn gadael y Sefydliad o'i gymharu â'r gweithlu presennol, a'r gwrywod 21 i 25 oed yw'r trydydd grŵp uchaf o ymadawyr (yn cynnwys 6% o'r gweithlu presennol) yn y cyfnod. Mae'r grwpiau oedran 36 i 40 a 46 i 50 yn cyfrif am 13% o'r gweithlu, ac mae nifer yr ymadawyr o'r grwpiau hyn yn llawer is. Mae'r ffigurau'n cynrychioli ciplun, a

chynrychiolwyd y ffigurau'n well gan ddata sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Arden.

Diolchodd MM i JOB am y crynodeb, a gwahoddodd gwestiynau gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd y lefel uchaf o gyfraddau salwch a gofnodwyd, ac a oedd y cyfraddau salwch yn cyd-fynd â chydymffurfiaeth isel â hyfforddiant Codi a Chario. Cofnodwyd achos mwyaf cyffredin salwch fel gorbryder, straen ac iselder a oedd wedi goddiweddyd clefydau heintus y frest ac anadlol yn ddiweddar. Roedd problemau cyhyrol ac ysgerbydol hefyd yn agos at frig y rhestr a chytunodd JOB ac AC i gyfarfod i drafod y ffigurau hyn ymhellach.

Cam Gweithredu: AC a JOB

Holodd y Pwyllgor ynghylch y ganran uwch o ymadawyr yn y grwpiau oedran iau a grybwyllwyd yn y cyflwyniad, a'r rhesymau dros y data hwn. Awgrymodd y Pwyllgor fod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach a'i drafod gyda'r ddemograffeg hon, er mwyn deall y rhesymeg, a'r cysylltiadau posibl â dilyniant gyrfa.

Yna trafododd y Pwyllgor y data ar y grŵp oedran hŷn sy'n gadael y sefydliad. Eglurodd JOB y byddai datblygu'r data yn arf amhrisiadwy i helpu'r Sefydliad i asesu anghenion yr unigolion yn yr ystodau oedran hyn.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid cofnodi newid yn y cofnodion o ddyddiadau arfarnu yn y Cofnod Staff Electronig bob chwe mis a fyddai'n dod ag ESR yn gyson â pholisi'r Sefydliad.

Cam Gweithredu: JOB

Trafododd y Pwyllgor yr angen i nodi maint y Newid Sefydliadol yn gywir. Eglurodd NL i'r Pwyllgor fod yr holl Newid Sefydliadol wedi'i gynllunio a'i reoli'n llawn er mwyn sicrhau costau cywir a bod capasiti wedi'i sicrhau.

**PODC 3.7/
2023.07.19**

Rheoli Risg

Derbyniodd ac ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig. Dywedodd AC wrth y Pwyllgor fod Cofrestr Risg 2022-2023 yn cael ei chau ac y byddai Cofrestr Risg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd a byddai'r Gofrestr Ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Tachwedd.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y broses o reoli Risgiau Corfforaethol gyda'r Tîm Gweithredol Busnes a'r Tîm Arwain a byddai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dod gerbron y Pwyllgor bob chwarter er gwybodaeth a sicrwydd.

Wele isod yr hyn a wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor
- Cymryd **sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol

PODC 4/ 2023.07.19	Eitemau i'w Cymeradwyo
PODC 4.1/ 2023.07.19	Cofnodion, Cofnodion Gweithredu a Materion sy'n Codi o gyfarfod 18 Ebrill 2023
Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion Cymraeg a Saesneg y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023, yn amodol ar ychwanegu sylw a wnaed yn y Pwyllgor ynghylch cwblhau'r arolwg gan staff sy'n seiliedig yn y gweithle. Cytunodd LB i gysylltu â LH i gadarnhau geiriad priodol. Cam Gweithredu LB/LH Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Cofnodion Gweithredu. Nododd y Pwyllgor y cyfeiriwyd at ddau bolisi yn y cofnodion gweithredu o fis Mawrth, lle y gofynnodd cydweithwyr yr Undebau Llafur am amser ychwanegol i'w trafod. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch yr amser a gymerwyd i sicrhau'r sylwadau hyn, gan fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r polisiau hyn yn ôl ym mis Mawrth. Dywedodd LB fod gwaith ar y gweill ac y byddai'n cael ei gwblhau o fewn y mis nesaf, cyn y Pwyllgor nesaf. Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i gau wyth cam gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnodion Gweithredu.	
PODC 4/ 2023.07.19	Adroddiad Blynyddol y Gymraeg
Nid oedd Adroddiad yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod oherwydd gwall gweinyddol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor anfon sylwadau at NL ynghylch Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg erbyn 26 Gorffennaf 2023. Gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg i'r Cynllun Ymgynghori Clinigol gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl. Trefnwyd cyfarfod ym mis Medi i adolygu'r gwaith a byddai'r Cynllun gorffenedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Tachwedd.	
PODC 5/ 2023.07.19	Eitemau i'w Nodi
PODC 5.1/ 2023.07.19	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Bu'r Pwyllgor yn trafod y Cynllun Gwrth-Hiliaeth a gofynnodd am eglurhad ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am reoli'r cynllun o fewn y Sefydliad. Gofynnodd y Pwyllgor i'r eitem gael ei hychwanegu at y Cynllun Gwaith ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.	

Cam Gweithredu: LB	
Derbyniodd a nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.	
PODC 5.2/ 2023.07.19	Adroddiadau Archwilio
Nid oedd unrhyw Adroddiadau Archwilio i'r Pwyllgor eu nodi. Derbyniodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Adroddiad Cynllunio Gweithlu. Roedd yr adroddiad yn cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru. Dywedodd BH wrth y Pwyllgor ei bod wedi cael gwybod gan ei chydweithwyr y dylid anfon Adroddiad Cynllunio Gweithlu Archwilio Cymru at y Sefydliad o fewn y saith diwrnod nesaf.	
PODC 6/ 2023.07.19	Gweinyddiaeth i Gloi
Unrhyw fusnes arall. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y fenter Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau yn dod yn ei blaen yn dda. Rhoddwyd sicrwydd bod canlyniadau arolwg Chwarter 4 yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd ac roedd y Sefydliad yn ymwybodol nad oedd Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau yn golygu gweithio o gartref yn unig. Mae'n golygu mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau newydd ar gyfer staff lle gallai gwaith ddim ond fod yn seiliedig yn y gweithle. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf. Cam Gweithredu: NL Gofynnwyd i'r Pwyllgor anfon unrhyw adborth ynghylch y cyfarfod at LB drwy e-bost. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Tachwedd 2023	
<i>Daeth y cyfarfod i ben am 12:22</i>	